Cath fach newydd

Cyd-fyw / Cyfeillgarwch

Un bore daeth cnoc ar y drws. Rhedodd Llŷr at y drws fel arfer. Mr Edwards drws nesaf oedd yno. Ar ôl sgwrs fer wrth y drws rhedodd Llŷr yn ôl at ei rieni.
"Mae Mr Edwards yn gofyn wnawn ni gymryd cath fach ddu a gwyn. Mam, gawn ni chymryd hi?"
Edrychodd y fam ar ei dad. Edrychodd ei dad ar ei fam. A dyma'r ddau yn edrych ar Smotyn oedd yn cysgu'n braf yn ei fasged. Doedd Smotyn ddim yn hoffi cathod. Os byddai cath yn mentro i'r ardd byddai Smotyn yno fel mellten, yn cyfarth yn gynddeiriog. Ymhen dim byddai holl gathod yr ardal wedi diflannu.
"Edrych Llŷr bach," meddai'i dad, "fuasai Smotyn ddim yn gadael i unrhyw gath ddod ar gyfyl y tŷ yma."
"Ond nid unrhyw gath ydi hon, ond cath fach ddel, ddu a gwyn. Efallai byddai cath fach yn iawn efo Smotyn, a Smotyn efo hithau." Doedd dim troi ar Llŷr.
Yn y gornel, roedd ei chwaer Angharad wedi bod yn gwrando. Roedd Angharad yn hŷn na Llŷr.
Rhoddodd hithau ei phwt i mewn.
"Beth am i ni roi cynnig arni. Os na fydda nhw'n cyd – dynnu rwy'n siŵr y byddai Mr Edwards yn ei chymryd yn ôl.
Cytunodd y rhieni.
Ar ôl ysgol daeth Llŷr i'r tŷ efo bwndel o ffwr du a gwyn. Rhoddodd y gath fach ar y mat o flaen y tân. Cododd Smotyn o'i fasged. Dechreuodd arogli o'i gwmpas. Gwelodd y bwndel bach du a gwyn. Ruthrodd amdani. Cododd y gath fach ar ei thraed y munud hwnnw. Roedd ei chefn yn wargam. Dechreuodd hisian yn ffyrnig. Trawodd wyneb Smotyn efo'i phawen. Roedd ei hewinedd wedi ei daro yn ei drwyn. Neidiodd Smotyn yn ôl a rhedodd y gath o dan y bwrdd ac yno bu am oriau.
Aeth Smotyn i'w fasged ac yno y bu yntau am hydoedd.

Pan oedd hi'n amser gwely daeth y gath fach yn araf, araf a gorwedd wrth ochr basged Smotyn. Arhosodd yntau yn ei fasged gan edrych ar y gath.
Roedd hi'n amlwg fod y gath fach wedi gwneud meistr arno.
"Mae'n amlwg eu bod nhw'n ffrindiau," meddai tad Llŷr.
Cofiwch chi, y ddau ohonoch, mae'n rhaid i chi roi cartref da i'r gath fach. Beth am gael enw arni. Fedra ni ddim galw 'cath fach' arni drwy'r amser."
Ar ôl noson o gwsg, rhuthrodd Llŷr i stafell wely ei rieni. "Mi rydw i wedi meddwl am enw ar y gath fach, Lwcus."
" Pam wyt ti eisiau ei galw'n Lwcus?" gofynnodd ei fam.
"Am nifer o resymau," meddai Llŷr. "Mi yda ni yn lwcus o'i chael hi, a hefyd mi yda ni'n lwcus bod hi a Smotyn yn ffrindiau."
"Wel, Lwcus amdani felly," meddai'r tad.

Wnei di fy nysgu, O Dduw, i fod yn ffrind da i bob anifail. Amen.

✦ Fedrwch chi feddwl am anifeiliaid sydd ddim yn gallu cyd-fyw?
✦ Ydych chi'n credu bod Llŷr wedi rhoi enw da ar y gath fach? Pam?